**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (TWNNEL PENMAEN-BACH, BWRDEISTREF SIROL CONWY) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, wrth Dwnnel Penmaen-bach, Conwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. cau, am yn ail, gerbytffordd tua'r dwyrain a cherbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r A55 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Bydd gwrthlif yn weithredol yn y lôn allanol o ba un bynnag o'r cerbytffyrdd sy'n aros ar agor i draffig;

ii. gwahardd pob cerbyd rhag goddiweddyd ar y darn o'r A55 a bennir yn Atodlen 2 a rheoli symudiad y traffig drwy fylchau yn llain ganol yr A55, fel y'i disgrifir yn Atodlen 3, a hynny y ddwy ochr i'r Twnnel (a gaiff ei ailagor yn ystod y gwaith) tra bo'r gwrthlif tua'r dwyrain neu'r gorllewin yn weithredol;

iii. gosod terfyn cyflymder o 50 mya ar y darn o'r A55 a bennir yn Atodlen 4;

iv. gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darnau o'r A55 a bennir yn Atodlen 5;

v. gosod terfyn cyflymder o 30 mya ar y darnau o'r A55 a bennir yn Atodlen 6;

vi. gwahardd cerbydau sy'n 3.2 metr neu'n lletach neu 3.7 metr neu'n lletach rhag mynd ar y darnau o'r A55 a bennir yn Atodlen 7, ac eithrio cerbydau a awdurdodwyd gan Heddlu Gogledd Cymru. Disgrifir y llwybr arall hefyd yn yr Atodlen honno. Dim ond un cyfyngiad lled bydd ar waith ar unrhyw adeg;

vii. gwahardd beicwyr a cherddwyr rhag mynd ar y darn o'r llwybr beiciau/llwybr troed sy'n gyfagos i'r darn o'r A55 a bennir yn Atodlen 8. Disgrifir y llwybr arall hefyd yn yr Atodlen honno;

viii. gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag cael ei yrru ar y darnau o'r A55 a bennir yn Atodlen 5. Bydd arwyddion traffig a osodir ymlaen llaw yn dangos y cyfnodau pan fydd y ffordd ar gau a

**THE A55 TRUNK ROAD (PENMAENBACH TUNNEL, CONWY COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road at Penmaenbach Tunnel, Conwy.

The effect of the Order is to temporarily:

i. close, alternately, the eastbound and westbound carriageways of the length of the A55 specified in Schedule 1 to this Notice. Contraflow will operate in the offside lane of whichever carriageway remains open to traffic;

ii. prohibit all vehicles from overtaking on the length of the A55 specified in Schedule 2 and control the movement of traffic through gaps in the central reservation of the A55, as described in Schedule 3, either side of the Tunnel (which will be re-opened during the works) whilst eastbound or westbound contraflow is in operation;

iii. impose a 50 mph speed limit on the length of the A55 specified in Schedule 4;

iv. impose a 40 mph speed limit on the lengths of the A55 specified in Schedule 5;

v. impose a 30 mph speed limit on the lengths of the A55 specified in Schedule 6;

vi. prohibit vehicles with a width of or exceeding 3.2 metres or 3.7 metres from proceeding on the lengths of the A55 specified in Schedule 7, except for vehicles authorised by North Wales Police. The alternative route is also described in that Schedule. Only one width restriction will be in place at any one time;

vii. prohibit cyclists and pedestrians from proceeding in the length of the cycleway/footpath adjacent to the length of the A55 specified in Schedule 8. The alternative route is also described in that Schedule.

viii. prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from being driven on the lengths of the A55 specified in Schedule 5. Any such closures will be indicated by advance traffic

dim ond am gyfnodau byr y disgwylir iddi fod ar gau. Nid oes angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 17 Ebrill 2023. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro yn weithredol yn ysbeidiol a dros nos yn bennaf (19:00 – 07:00 o'r gloch) o 17 Ebrill 2023 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad am y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn cael ei arddangos cyn i unrhyw waith ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwrthlif**

Y darn o'r A55 sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin hyd at bwynt 130 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol y twnnel hwnnw.

**ATODLEN 2**
**Dim goddiweddyd**

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain (y pentir) yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin hyd at bwynt 130 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol y twnnel hwnnw.

**ATODLEN 3**
**Terfynau'r bylchau yn y llain ganol**

Y bwlch yn y llain ganol rhwng pwynt sy'n 130 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin a phwynt sy'n 65 o fetrau i'r dwyrain o'r porth hwnnw.

Y bwlch yn y llain ganol rhwng pwynt sy'n 210 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin a phwynt sy'n 320 o fetrau i'r gorllewin o'r porth hwnnw.

signs and are only expected to be for short periods of time. No diversionary routes are necessary.

The Order comes into force on 17 April 2023. The temporary prohibitions and restrictions are expected to operate on an intermittent basis and mostly overnight (19:00 – 07:00 hours) from 17 April 2023 for a maximum period of 18 months. Notice of the prohibitions and restrictions will be displayed before the start of any works.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**Contraflow**

The length of the A55 that extends from a point 320 metres west of the western portal of the Penmaenbach Westbound Tunnel to a point 130 metres east of the eastern portal of that tunnel.

**SCHEDULE 2**
**No overtaking**

The length of the eastbound (headland) carriageway of the A55 that extends from a point 320 metres west of the western portal of the Penmaenbach Westbound Tunnel to a point 130 metres east of the eastern portal of that tunnel.

**SCHEDULE 3**
**Limits of the central reserve gaps**

The gap in the central reservation situated between a point 130 metres east of the eastern portal of the Penmaenbach Westbound Tunnel and a point 65 metres east of that portal.

The gap in the central reservation situated between a point 210 metres west of the western portal of the Penmaenbach Westbound Tunnel and a point 320 metres west of that portal.

## ATODLEN 4
## Terfyn cyflymder 50 mya dros dro

Y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin yr A55 sy’n ymestyn o bwynt 20 metr i’r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Conwy hyd at bwynt 20 metr i’r gorllewin o ganolbwynt trosbont Morfa Drive.

## ATODLEN 5
## Terfyn cyflymder 40 mya dros dro a gwahardd cerbydau

Y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin yr A55 sy’n ymestyn o bwynt 500 metr i’r dwyrain o ganolbwynt cylchfan Cyffordd 19 (Cyfnewidfa Glan Conwy) hyd at ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables, gan gynnwys y ffyrdd ymuno ac ymadael tua’r gorllewin wrth Gyffyrdd 19, 18, 17, y gylchfan wrth Gyffordd 16 a’r bwlch yn y llain ganol fel y’i diffinnir ym mharagraff 2 o Atodlen 3.

Y darn o gerbytffordd tua’r dwyrain yr A55 sy’n ymestyn o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables hyd at y llain ganol wrth bwynt sy’n 191 o fetrau i’r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Pentir Penmaen-bach tua’r Dwyrain, gan gynnwys y bwlch yn y llain ganol fel y’i diffinnir ym mharagraff 2 o Atodlen 3.

Y darn o gerbytffordd tua’r dwyrain yr A55 sy’n ymestyn o’r llain ganol wrth bwynt sy’n 787 o fetrau i’r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Pentir Penmaen-bach tua’r Dwyrain hyd at bwynt sy’n 500 metr i’r dwyrain o ganolbwynt cylchfan Cyffordd 19 (Cyfnewidfa Glan Conwy), gan gynnwys y ffyrdd ymuno ac ymadael tua’r dwyrain wrth Gyffyrdd 17, 18 a 19.

## ATODLEN 6
## Estyn cyfyngiad cyflymder 30 mya y Pentir

Y darn o’r bwlch yn y llain ganol rhwng pwynt sy’n 130 o fetrau i’r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Penmaen-bach tua’r Gorllewin a phwynt sy’n 65 o fetrau i’r dwyrain o’r porth hwnnw.

Y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin yr A55 sy’n ymestyn o bwynt 840 o fetrau i’r gorllewin o ganolbwynt trosbont Cyffordd 17 (Morfa Conwy) hyd at bwynt 362 o fetrau i’r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua’r Gorllewin.

Y darn o gerbytffordd tua’r dwyrain yr A55 sy’n ymestyn o bwynt 940 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan Puffin) hyd at bwynt 191 o fetrau i’r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Pentir Penmaen-bach tua’r Dwyrain.

## SCHEDULE 4
## Temporary 50 mph speed limit

The length of the A55 westbound carriageway that extends from a point 20 metres east of the eastern portal of the Conwy Tunnel to a point 20 metres west of the centre-point of Morfa Drive over-bridge.

## SCHEDULE 5
## Temporary 40 mph speed limit & prohibition of vehicles

The length of the A55 westbound carriageway that extends from a point 500 metres east of the centre-point of the Junction 19 (Glan Conwy Interchange) roundabout to the centre-point of Red Gables Viaduct over-bridge, including the westbound entry and exit slip roads at Junctions 19, 18, 17, the roundabout at Junction 16 and the central reserve gap as defined in paragraph 2 of Schedule 3.

The length of the A55 eastbound carriageway that extends from the centre-point of Red Gables Viaduct over-bridge to the central reserve at a point 191 metres west of the western portal of Penmaenbach Eastbound Headland Tunnel, including the central reserve gap as defined in paragraph 2 of Schedule 3.

The length of the A55 eastbound carriageway that extends from the central reservation at a point 787 metres east of the eastern portal of the Penmaenbach Eastbound Headland Tunnel to a point 500 metres east of the centre-point of the Junction 19 (Glan Conwy Interchange) roundabout, including the eastbound entry and exit slip roads at Junctions 17, 18 and 19.

## SCHEDULE 6
## Extension of the Headland 30mph speed restriction

The length of the central reserve gap between a point 130 metres east of the eastern portal of the Penmaenbach Westbound Tunnel and a point 65 metres east of that portal.

The length of the A55 westbound carriageway that extends from a point 840 metres west of the centre-point of the Junction 17 (Conwy Morfa) over-bridge to a point 362 metres west of the western portal of the Penmaenbach Westbound Tunnel.

The length of the A55 eastbound carriageway that extends from a point 940 metres east of the centre-point of Junction 16 (Puffin Roundabout) to a point 191 metres west of the western portal of Penmaenbach Eastbound Headland Tunnel.

Y bwlch yn y llain ganol rhwng pwynt sy'n 210 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin a phwynt sy'n 320 o fetrau i'r gorllewin o'r porth hwnnw.

The gap in the central reservation between a point 210 metres west of the western portal of the Penmaenbach Westbound Tunnel and a point 320 metres west of that portal.

## ATODLEN 7
## Cyfyngiad lled cerbydau

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A55 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno) hyd at bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan Puffin), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan Puffin) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno).

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin yn ystod oriau golau dydd fydd mynd ar yr A470 tua'r de o Lan Conwy i Fetws-y-coed a'r A5 tua'r gorllewin o Fetws-y-coed i ymuno â'r A55 yn Llandygái. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain.

Pan fydd y ffordd ar gau ar adegau eraill, bydd dau fan cynnull ar gael y ddwy ochr i'r Twnnel. Codir arwyddion ynghylch y rhain gyda rhif ffôn i lorïwyr allu cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru i gael cyngor. Ni ddisgwylir i gerbydau gael eu cadw yn y mannau hyn am gyfnodau estynedig.

## SCHEDULE 7
## Vehicle width restriction

The length of the A55 westbound carriageway that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 18 (Llandudno Junction Interchange) to a point 30 metres east of the centre-point of Junction 16 (Puffin Roundabout), including the westbound entry slip road at Junction 18.

The length of the A55 eastbound carriageway that extends from a point 30 metres east of the centre-point of Junction 16 (Puffin Roundabout) to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 18 (Llandudno Junction Interchange).

The alternative route for westbound vehicles during daylight hours is via the southbound A470 from Glan Conwy to Betws-y-Coed and the westbound A5 from Betws-y-Coed to join the A55 at Llandygai: vice versa for eastbound vehicles.

For closures during other times two holding areas either side of the Tunnel will be available. These will be signed with a phone number for hauliers to contact North Wales Police for advice. It is not expected that vehicles will be held at these areas for extended periods.

## ATODLEN 8
## Gwahardd beicwyr a cherddwyr dros dro a llwybr arall

Y darn o'r llwybr beiciau/llwybr troed sy'n ymestyn o bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Pentir Penmaen-bach tua'r Dwyrain, gan gynnwys y darn o'r llwybr beiciau/llwybr troed sy'n gyfagos i'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17, hyd at ei bentan â'r A457 ar ddiwedd y ffordd ymadael honno.

Y llwybr arall ar gyfer beicwyr a cherddwyr sy'n teithio tua'r dwyrain yw mynd ar y bont feiciau dros reilffordd Caer i Gaergybi, Beach Road a'r A457 Meirion Drive: i'r gwrthwyneb i feicwyr/cerddwyr sy'n teithio tua'r gorllewin.

## SCHEDULE 8
## Temporary prohibition of cyclists and pedestrians and alternative route

The length of the cycleway/footpath that extends from a point 787 metres east of the eastern portal of the Penmaenbach Eastbound Headland Tunnel, including the length of cycleway/footpath adjacent to the Junction 17 eastbound exit slip road, to its abutment with the A457 at the end of that slip road.

The alternative route for eastbound cyclists and pedestrians is via the cycle bridge over the Chester to Holyhead railway line, Beach Road and A457 Meirion Drive: vice versa for westbound cyclists/pedestrians.